

A d n a b o d a w d u r



DANNEDD GOSOD BEN*

1991 £2.50

BEN AR EI WYLIAU

1996 £3.50

Helyntion Ben D. Geidfran y cawr o Gaerdydd. Hoff fwyd y cawr yw plant, ond wedi iddo dorri ei ddannedd wrth geisio bwyta merch fach y dewin mae'n rhaid iddo gael help gan y Dewin i gael dannedd gosod newydd. Pan aiff ar ei wyliau yn **Ben ar ei Wyliau**, mae'n cael ei hun i mewn i bob math o drafferth, ac mae'n amau fod rhyw ddrwg yn y caws yn rhywle!

ZAC YN Y PAC*

1996 £2.95

A wnaiff tîm pentre Brynchwim ennill y gêm rygbi fawr yn erbyn y tîm o fwlis Casgarw? Eu hunig obaith yw y bydd eu captan, Zac, yn llwyddo i sgorio, ond caiff Zac ei anafu gan un o chwaraewyr brwnt Casgarw - pa obaith sydd i'r tîm nawr?

RWBA DWBA

1995 £2.95

Rhieni cas a hunanol yw Sid ac Edwina Sdwnsh sy'n gwneud bywyd eu mab, Llew, yn hunllef. Mae angen help triciau y dewin Rwba Dwba i'w rhwystro rhag anfon Llew i ffwrdd i ysgol fonedd Snottington-on-Sea.

HARI HYLL YR AIL


1996 £3.50

Brenin cas a chreulon yw Hari Hyll sy'n gwneud bywyd pobl Caerdydd yn anniodde-fof. A wnaiff Dafydd, mab y dewin, a'i ffrind Bleddyn y Balŵn, lwyddo i'w dwyllo gyda'r llwch swynol?

Gwasg y Dref Wen. *Pecyn llyfr a chasét

GWYN MORGAN

A d n a b o d a w d u r



GWYN MORGAN

Mae'n rhaid imi ysgrifennu a darllen ac rwy'n cael hwyl a sbri wrth wneud hynny gyda phlant ac ar fy mhen fy hun. Dwi'n cael syniadau wrth sylwi ar bobl eraill yn mynd i drafferthion.

Dwi'n casáu gwthio ceir trwm sy'n gwrthod tanio yn y glaw. Hefyd, dwi'n casáu bwllis ac yn dial arnyn nhw mewn storïau a cherddi. Does dim sy'n well gen i na gweld dillad isa Edwina Sdwnsh a gweld Sid Sdwnsh yn cael ei lusgo o gwmpas yr ardd gan y peiriant lladd gwair.

Dwi'n mwynhau pob munud o fy mywyd. Dwi'n dal i gael gwersi piano, yn coginio ac yn cerdded llwybrau unig y Bannau.

Gwyn Morgan

HELO! Gwyn Morgan ydw i. Ces i 'ngeni yn Ysbyty Abernant, ger Aberdâr ar Fai 28ain, 1954. Penderyn yw fy nghartre ers rhyw ddeng mlynedd bellach. Dwi'n briod â Joyce ac mae gen i lysfab o'r enw Dafydd Trystan. Athro ysgol gynradd ydw i ers ugain mlynedd.

Ces i fy addysg yn Ysgol Gymraeg Cwmdâr, ac Ysgol Gymraeg Ynyslwyd, Aberdâr. Es i Ysgol Gyfun Rhydfelen, Pontypridd, yna i Goleg y Drindod, Caerfyrddin a chael tystysgrif athro.

Doeddwn i ddim yn hoff o ddarllen pan oeddwn i yn yr ysgol. Roedd llyfrau bryd hynny yn anniddorol iawn. Llyfrau am Dafydd, Mot a Meri oedden nhw a'r ddau blentyn yn debyg i zombies. Felly penderfynais ysgrifennu am gawr gwaedlyd oedd yn bwyta plant ac yn gwneud cyrri allan o'r gweddillion. Dwi'n sgrechian chwerthin weithiau wrth feddwl am Hari Hyll yn gorfodi pobl Caerdydd i fwyta mwydod. Mae rhai pobl yn meddwl 'mod i'n boncys - ond, diolch i'r drefn, mae gen i dystysgrif i brofi i'r gwrthwyneb!

Dwi'n ysgrifennu i'r cylchgrawn natur **DAN HAUL** ac yn cyfrannu cartŵn - **Heti** - i'r cylchgrawn **CIP**, gyda Dai Owen.

Fy hoff awduron yw Spike Milligan, Brian Patten, Roger McGough a Dewi Pws. Dwi'n meddwl bod lluniau Dai Owen ymhlith y goreuon. Fy hoff bryd bwyd yw cornbiff, ffa pob a thatws mash.